O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1720 (Cy. 224)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Newbridge, Newbridge, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *3 Gorffennaf 2012*

Yn dod i rym *16 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Newbridge, Newbridge, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith neu gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19.00 o'r gloch ar 16 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd, a elwir Ffordd Osgoi Newbridge, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â'r A539, (Cyffordd 1), hyd at bwynt wrth ei chyffordd â'r A5 wrth Gylchfan Halton.